



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymateb y Llywodraeth i'r
ymgyngoriad ar

*Atgyfnerthu teuluoedd,
hybu cyfrifoldeb rhieni:
dyfodol cynhaliaeth plant*

Rhagair Gweinidogaethol gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Gweinidog ar gyfer Pobl Anabl

Pan fo perthynas rhwng oedolion yn chwalu, rhaid i ni gefnogi teuluoedd i ystyried eu cyfrifoldebau tuag at eu plant. Rhaid eu helpu i sicrhau bod eu plant yn dod gyntaf, hyd yn oed yn ystod yr adegau anoddaf hynny.

Trwy waith ymchwil, rydym wedi dysgu mai un o'r ffactorau pwysicaf wrth benderfynu os oes cymorth ariannol positif ar waith ar gyfer y plant yw'r berthynas rhwng y rhieni eu hunain.¹ Hefyd, mae cael cymorth buan wedi i rieni wahanu yn hanfodol bwysig i'w helpu i roi cymorth ariannol ar waith ar gyfer eu plant. Serch hyn, mae ein system statudol bresennol yn gwneud ychydig iawn i gydnabod hyn.

Nid oes gan dros 50 y cant o blant sy'n byw mewn teuluoedd sydd wedi gwahanu unrhyw drefniadau ariannol effeithiol mewn grym o gwbl,² gan amlaf am fod rhieni wedi colli cysylltiad gyda'r plant neu am eu bod yn methu â deall, neu'n methu ag ymddiried yn y system statudol.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r mwyafrif yn dal i ystyried mai'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) yw'r unig opsiwn, ac amcangyfrifir mai dim ond un mewn pum rhiant sy'n gwneud eu trefniadau eu hunain.³ Mae'r gweddill naill ai heb drefniadau effeithiol o gwbl neu wedi eu cyfyngu yn y system statudol y byddai'n well ganddynt beidio bod yn rhan ohono, oni fyddai'r cymorth priodol ar gael iddynt.

Ym Mhrydain mae gennym nifer o elusennau a mudiadau sector gwirfoddol eraill sy'n cynnig cymorth arbenigol i gyplau sy'n gwahanu, ond gwelir yn rhy aml fod rhieni yn ceisio cymorth yn rhy hwyr, ac yn aml caiff cymorth mewn perthynas ei ystyried fel y pen draw un.

Yn ei adroddiad ar y system gynhafiaeth plant yn 2006,⁴ fe nododd Syr David Henshaw y sail resymegol dros godi tâl; gan fod gorddibyniaeth ar y system statudol yn tanseilio'r angen i rieni gyd-weithio a chymryd cyfrifoldeb am les eu plant wedi iddynt wahanu. Nododd yr angen i rieni newid eu hymddygiad ac y byddai codi tâl am y system statudol yn rhan hanfodol o'r broses honno ar gyfer mamau a thadau.

¹ Andrews, S., Armstrong, D., McLernon, L., Megaw, S. and Skinner, C. (2011). *Promotion of child maintenance: Research on Instigating Behaviour Change*. Child Maintenance and Enforcement Commission Research Report.

² Based on Commission and DWP analysis of CSA administrative data and a number of different survey sources: Labour Force Survey 2010, Families and Children Study 2008, CM Options Surveys 2010 and 2011.

³ Ibid.

⁴ Sir David Henshaw (2006) – Recovering child support: routes to responsibility

Mae'r Llywodraeth Glymblaid am ddwyn dull gweithredu Henshaw ymlaen, fel y deddfwyd ar ei gyfer gan y weinyddiaeth flaenorol yn 2008, ac maent wedi ail gwrdd â'r her a osodwyd gan Henshaw i sicrhau bod y system newydd yn ystyried anghenion y grwpiau hynny sydd â'r angen mwyaf. Cyn hyn, nid oedd hyn wedi cael ei ddwyn ymlaen ar lefel polisi.

Er mwyn i unrhyw ddiwygiad fod yn llwyddiannus, mae'r Llywodraeth Glymblaid wedi nodi'r angen ar gyfer:

- Cymorth arbenigol llawer mwy hygyrch; rydym yn gweithio gyda mudiadau blaenllaw i sefydlu ffordd resymol a dealladwy ar gyfer cyfeirio rhieni at y cymorth sydd fwyaf addas iddynt drwy ddefnyddio ymagwedd ar ffurf "therapi cyfiawnder" – system sy'n helpu rhieni i weithio drwy faterion emosiynol fel y gallant ddelio gyda materion mwy ymarferol – ac er mwyn gweld cynhaliaeth mewn cyd-destun ehangach o anghenion y teulu yn ystod cyfnod o wahanu, nid fel rhywbeth unigol ac ar wahân. Rydym yn ymwybodol fod rhai rhieni, am nifer o resymau gwahanol, yn wynebu sawl rhwystr yn erbyn cydweithio, ac mae'n rhaid i'r system gymorth gydnabod hynny.
- Llwyrr gydnabyddiaeth o'r rhan y gall codi tâl ei gael yn y system statudol drwy annog unigolion i edrych ar sut gallant weithio gyda'i gilydd i wneud eu trefniadau eu hunain sydd yn adlewyrchu eu hanghenion teuluol yn well.
- Bydd angen delio ag anghenion y grwpiau hynny sydd â'r angen mwyaf:
 - Byddwn yn ei gwneud yn haws i rieni gael cymorth er mwyn galluogi mwy o deuluoedd ar incwm isel i wneud eu trefniadau cynhaliaeth eu hunain.
 - Bydd dioddefwyr trais yn y cartref yn cael eu trosglwyddo'n gyflym i'r system statudol heb orfod talu ffi am y cais.
 - Bydd teuluoedd sy'n cael budd-daliadau diweithdra yn cael cadw 100 y cant o'u hawliau budd-dal lles yn ogystal â chael talu ffi cryn ostyngedig ar gyfer gwneud cais i beth sydd yn parhau i fod yn gynllun cynhaliaeth statudol fydd wedi ei gymorthdalun sylweddol gan y wladwriaeth.

Mae angen i ni gyd-weithio ledled y Llywodraeth i wirioneddu'r weledigaeth hon. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y rhan hanfodol y gall uned deuluol gryf a sefydlog ei chwarae wrth wella canlyniadau bywyd aelodau'r uned honno, ac mae'n glir bod polisi teuluol llwyddiannus yn hanfodol i les unigolion a chymdeithas ar y cyfan. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, a gadeirir yn annibynnol, ddatblygu ei argymhellion; rhaid i ni sicrhau bod y systemau ar gyfer cefnogi rhieni sy'n gwahanu – beth bynnag fo eu problemau – yn ddealladwy ac wedi eu cyd-gysylltu.

Ochr yn ochr â'n cynlluniau ar gyfer y system gynhaliaeth plant, mae agenda Cyfiawnder Cymdeithasol y Llywodraeth yn canolbwyntio ar newid bywydau'r teuluoedd mewn cymdeithas sydd mewn mwyaf o angen. Mae hyn yn golygu delio gyda'r materion cymhleth sy'n achosi anfantais gymdeithasol, fel teuluoedd yn chwalu, diffyg llwyddiant mewn addysg, dyled, dibyniaeth ar gyffuriau a sylweddau eraill, a diweithdra. Drwy wynebu'r problemau hyn gyda'i gilydd, gallwn helpu atgyfnerthu'r teuluoedd hyn fel y gallant gymryd y camau cyntaf allan o'r fagl tloidi.

Amcan ein polisi yw cael mwy o blant yn elwa o gefnogaeth ariannol effeithiol a chael dulliau mwy cydweithredol o fagu plant wedi i rieni wahanu. Bydd mwy o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd cefnogi'r berthynas rhwng rhieni, ymyrryd yn gynnar a sicrhau bod plant yn mwynhau perthynas parhaol gyda'r ddau riant pan fo hynny'n ddiogel. Mae'n rhaid cael hyn er mwyn ceisio sicrhau cefnogaeth ariannol parhaol. Credwn y gallwn, drwy'r ymagwedd hon, greu newid gwirioneddol fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant.

Maria Miller AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Gweinidog ar gyfer Pobl Anabl

Crynodeb Gweithredol

1. Mae gwahanu yn gyfnod anodd iawn, ac ni fydd llawer o bobl yn gwybod at bwy i droi am gymorth i ddelio gyda'r materion emosiynol, ymarferol ac ariannol sydd yn eu hwynebu. Dim ond un mater yn unig yw trefnu cynhaliaeth plant. Rydym yn credu bod angen agwedd mwy holistig tuag at gefnogi rhieni sydd wedi neu sydd yn gwahanu, un sy'n delio gyda'r anghenion ac sydd yn rhoi cymorth sy'n canolbwyntio'n bennaf oll ar les y plant.
2. Yn hytrach nag edrych ar y cynllun statudol fel yr unig opsiwn ar gael, rydym yn awyddus i annog rhieni i wneud cytundebau teuluol ble bynnag fo bosib. Gall y system bresennol arwain at wrthdaro drwy annog drwgdeimlad rhwng y rhieni sydd wedyn yn lleihau'r tebygrwydd o allu parhau i fagu plant ar y cyd. Rhaid i hyn newid. Credwn y bydd cytundebau teuluol yn fwy tebygol o barhau, yn arwain at gymorth ariannol parhaol ac yn well i deuluoedd ac i blant.
3. Rydym yn gwybod bod mwy na thair miliwn o blant yn byw mewn teuluoedd sydd wedi gwahanu, ond dim ond tua 50 y cant ohonynt sy'n cael cynhaliaeth plant.⁵ Yn dilyn arolygiad, rydym hefyd yn ymwybodol bod tua hanner o rieni â gofal y CSA a'r mwyafrif o rieni dibreswyl yn honni y byddant yn gwneud cytundeb teuluol os byddai'r cymorth priodol ar gael iddynt allu gwneud hynny.⁶
4. Dyma pam y gwnaethom gyhoeddi'r papur ymgynghori *Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldeb rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant* (Cm 7990) ar 13 Ionawr 2011. Diben y papur oedd gosod allan ein cynigion ar gyfer diwygio, a cheisio cael sylwadau pobl. Roeddem yn awyddus i wrando ar eich barn ar ystod eang o faterion y credwn fyddai'n arwain at newid mewn diwylliant a fyddai wedyn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau rhieni sydd wedi gwahanu yn ogystal â'u plant.
5. Cawsom 716 o atebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 649 ateb gan unigolion. Roedd 167 o'r atebion gan unigolion yn atebion safonol. Cafwyd ymateb ffurfiol gan 67 mudiad. Yn ogystal â hyn, gwnaethom gyfarfod gyda phedwar mudiad oedd heb ymateb yn ffurfiol, ond cymerwyd eu barn i ystyriaeth. Hefyd, gwnaeth nifer o Aelodau Seneddol ac Arglwyddi Anrhydeddus ddarparu sylwadau ffurfiol.

⁵ Based on Commission and DWP analysis of CSA administrative data and a number of different survey sources: Labour Force Survey 2010, Families and Children Study 2008, CM Options Surveys 2010 and 2011.

⁶ Wikeley, N., Ireland, E., Bryson, C. and Smith, R. (2008). Relationship separation and child support study. DWP Research Report 503.

6. Yn ystod y cyfnod ymgynghori bu i'r Gweinidogion a swyddogion gwrdd â nifer o grwpiau cynrychioli, arbenigwyr a mudiadau cymorth teuluol er mwyn trafod y diwygiadau ac i gael gwell dealltwriaeth o'u barn ac i gymryd mantais o'u harbenigedd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys gweithdai gyda mudiadau gwirfoddol ac o'r sector cymdeithasol er mwyn trafod agweddau penodol o'r Papur Gwyrdd, fel integreiddio gwasanaethau cymorth teuluol a'r cynnig i esgusodi'r rhai sydd wedi dioddef o drais yn y cartref rhag talu'r ffi am wneud cais. Gwnaethom hefyd gwrdd â swyddogion Llywodraeth yr Alban a budd-ddeiliaid i drafod y materion penodol sy'n gymwys i'r Alban.
7. Hoffai'r Llywodraeth Glymblaid ddiolch i'r unigolion a'r mudiadau hynny a gymerodd yr amser i ymateb yn ffurfiol neu drwy ein cyfarfodydd a'n gweithdai.
8. Roedd cytuno brwd i'r egwyddor y dylai cefnogaeth ar gyfer cynhaliaeth plant gael ei glymu'n agosach gyda mathau eraill o gefnogaeth i deuluoedd sydd wedi gwahanu. Hefyd, bu i nifer o'r atebwyr ddatgan eu barn yn glir na ddylai'r gwasanaeth cynhaliaeth plant statudol fod yn anhygyrch i'r rhieni hynny sy'n methu â chydweithio gyda'i gilydd i wneud cytundeb teuluol, ac rydym wedi bod yn glir na fydd y diwygiadau ond yn gwella'r system statudol ond hefyd yn gwneud yn sicr y bydd yn parhau'n hygyrch ac yn parhau i gael ei gymorthdalu'n sylweddol gan y wladwriaeth ar gyfer y rhai sydd ei angen.
9. Tra bod yr Asiantaeth Cynnal Plant wedi gwella dros y blynyddoedd, mae'n parhau i fod yn system ddiffygiol a drud sy'n costio mwy na £460 miliwn bob blwyddyn i'w rhedeg. Golyga gwendidau TG bod yn rhaid i thua 100,000 o achosion gael eu cynnal oddi ar y system, a phob un yn costio tua dwbl yr hyn mae'n costio i'w rheoli ar y system, ac mae ôl-ddyledion sylweddol wedi cronni dros y 18 mlynedd diwethaf. Hefyd, mae'n costio dros 40 ceiniog i gasglu bob £1 o gynhaliaeth gan rieni.
10. Hefyd ceir y cymhlethdod pellach o'r ffaith fod yr Asiantaeth yn rhedeg dau gynllun - y ddau gyda'u rheolau eu hunain - sy'n golygu bod rhai plant yn fwy tebygol o golli allan ar gytundebau cynhaliaeth effeithiol. Ar y cynllun hyn, mae'r wybodaeth am ein cwsmeriaid mor hen fel bod bron i 200,000 wedi eu hasesu i dalu dim byd - sydd hefyd yn golygu bod nifer o blant yn colli allan.
11. Ar gyfer y rhieni hynny sydd ar fudd-daliadau, byddwn yn parhau i ddiystyru eu taliadau cynhaliaeth sy'n golygu bod yr holl gynhaliaeth yn mynd yn gyfan gwbl at y plant yn hytrach na chael ei hadennill o daliadau budd-dal. Bydd y taliadau cynhaliaeth hefyd yn parhau i fod yn anhrethadwy.

12. Fel rhan o'n nod i gael rhieni i weithio gyda'i gilydd er mwyn lles eu plant, rydym yn awyddus i newid y diwylliant o wrthdaro sydd wedi arwain at ddibynnu'n ormodol ar system y wladwriaeth. Mae'r lefelau codi tâl a gynigir wedi eu llunio er mwyn gwneud i rieni feddwl yn ddwys am eu cyfrifoldebau fel rhieni a gweithio tuag at gael cytundeb teuluol.
13. Pan fo rhieni yn penderfynu defnyddio'r system wladwriaethol, credwn ei bod yn deg ac yn cyd-fynd gyda hybu cyfrifoldebau rhieni, i ofyn i rieni ail flaenoriaethu cyfran fechan o'u gwariant tuag at gost eu cais a'u casgliadau cynhaliaeth parhaol. Bydd y cynllun newydd yn parhau i gael ei gymorthdalun sylweddol ac ni fydd y gost y cynigir ei godi ymlaen llaw ond yn cwmpasu cyfran o'r £220 y mae cais yn debygol o gostio.
14. Mae'r penodau canlynol yn gosod allan ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad a'i hymagwedd ar ddiwygio'r system cynhaliaeth plant, sy'n annog symudiad sylfaenol tuag at gefnogi a galluogi rhieni i allu cymryd cyfrifoldeb am les eu plant.
15. Wrth ddatblygu ei chynlluniau ar gyfer cynhaliaeth plant, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Addysg, i sicrhau bod ein systemau ar gyfer cynorthwyo rhieni sy'n gwahanu - beth bynnag fo eu problemau – yn ddealladwy ac wedi eu cyd-gysylltu. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio ar y cyd rhwng ein hadrannau wrth i ni ddatblygu cynlluniau i roi hyn ar waith ac i wneud yn siŵr ein bod yn unioni ein gwasanaethau gweithredol gyda'n polisïau cyn belled â phosib.

Yr ymgynghoriad

16. Roeddem yn awyddus i gymaint o bobl â phosib gael gweld y wybodaeth am ein hargymhellion ac felly cynhyrchwyd fersiwn o'r ddogfen ar ffurf PDF yn ogystal ag ar ffurf "rich text" a chrynodeb gweithredol yn y Gymraeg. Gwnaed pob un o'r rhain ar gael ar lein yn:
[//www.dwp.gov.uk/consultations/2011/strengthening-families.shtml](http://www.dwp.gov.uk/consultations/2011/strengthening-families.shtml)
17. Hefyd, fe wnaethom dynnu sylw mudiadau allweddol gyda diddordeb mewn cynhaliaeth plant at y ddogfen ymgynghori.
18. Fel yr amlinellir uchod, mae sawl cyfarfod wedi cael ei gynnal ar lefel Gweinidogol a swyddogol gyda grwpiau cynrychioli, arbenigwyr a mudiadau cymorth teuluol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u sylwadau ac i fanteisio ar eu harbenigedd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys gweithdai gyda mudiadau o'r sectorau gwirfoddol a chymunedol er mwyn trafod agweddau penodol o'r Papur Gwyrdd, fel integreiddio gwasanaethau cymorth teuluol a'r cynigion ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref.

19. Hefyd, fe wnaethom ofyn i bobl anfon eu sylwadau atom ar ein cynigion a rhoi eu hawgrymiadau ar gyfer diwygio. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 13 Ionawr hyd at 7 Ebrill, a chawsom 716 o ymatebion.

Dadansoddiad o'r ymatebion

20. Atebion a gafwyd drwy'r post ac e-bost.

Tabl 1: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion
Aelodau o'r cyhoedd	628
Staff o'r Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant	12
Staff o'r Adran Gwaith a Phensiynau	9
Mudiadau allanol	67
Cyfanswm	716

21. Ceir rhestr o'r mudiadau a anfonodd ymatebion yn Atodiad A.

Strwythur y ddogfen hon

22. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi'r prif bwyntiau a wnaed gan yr ymatebwyr ac yn rhoi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Bydd cynlluniau manylach y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r cynllun cynhaliaeth plant statudol yn cael eu gosod allan mewn rheoliadau cadarnhaol gaiff eu cyflwyno yn y Senedd dros y misoedd nesaf.
23. Bydd paragraffau un i ddeg o'r adran nesaf ("prif themâu") yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a wnaed. Tra na fu i bob ymatebydd roi adborth ar bob cwestiwn, gwnaeth llawer un roi sylwadau ar y system cynhaliaeth plant oedd yn ehangu ar yr argymhellion a'r cwestiynau o'r Papur Gwyrdd. Mae sylwadau a wnaed o dan wahanol benawdau wedi cael eu cynnwys o dan y cwestiwn mwyaf perthnasol. Mae ymatebion nad ydynt yn berthnasol i faterion oedd yn unrhyw ran o'r cwestiynau penodol wedi cael eu crynhoi o dan y teitl "Materion eraill".
24. Mae'r cyhoeddiad ymgynghori gwreiddiol *Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldebau rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant* (Cm 7990) a'r adroddiad hon ar gael yn: [//www.dwp.gov.uk/consultations/2011/strengthening-families.shtml](http://www.dwp.gov.uk/consultations/2011/strengthening-families.shtml)
25. Gellir cael copïau papur o'r ddwy ddogfen gan:

Department for Work and Pensions
Child Maintenance Sponsorship and Strategic Policy Division
3rd Floor
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA